**<u>Gwrandawiad Camymddwyn Cyflym – Casgliad</u>**

**Swyddog:** Cyn PC 3304 Thomas Coppack
**Cyfeirnod yr Achos:** CM/31/23
**Dyddiad y Gwrandawiad:** 17 Awst 2026
**Cadeirydd:** Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman

**Cefndir**

Cyfeiriwyd y mater hwn at Wrandawiad Camymddwyn Cyflym o dan Reoliadau (Ymddygiad) yr Heddlu 2020 yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Priodol fod yr amodau arbennig wedi'u bodloni:

- Mae digon o dystiolaeth, ar ffurf tystiolaethau a dogfennau ysgrifenedig, i sefydlu yn ôl yr hyn sy'n debygol fod yr ymddygiad yn cyfateb i Gamymddwyn Difrifol.
- Mae er budd y cyhoedd i'r swyddog beidio â bod yn swyddog heddlu yn ddi oed.

Ystyriodd y gwrandawiad y dystiolaeth a geir o fewn y bwndel camymddygiad a'r cyflwyniadau agoriadol gan yr Awdurdod Priodol. Derbyniwyd Ymateb Rheoliad 54 cryno gan y cyn swyddog. Nodir fod y swyddog wedi ymddiswyddo cyn y gwrandawiad a roedd ei ddiwrnod olaf o wasanaeth ar 11 Awst 2026. O fewn ymateb y cyn swyddog, fe wnaeth wadu fod ei ymddygiad yn cyfateb i gamymddwyn difrifol.

Cadarnhaodd cynrychiolydd y swyddog fod y swyddog wedi cael y cyfle i gael cyngor cyfreithiol a chael cynrychiolaeth gyfreithiol yn y gwrandawiad.

Mae'r mater yn deillio o euogfarn y Cyn PC Coppack yn dilyn achos llys dros bedwar diwrnod yn Llys y Goron yr Wyddgrug. Ar 9 Gorffennaf 2026, cafodd ei ganfod yn euog o ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, yn groes i adran 47 Deddf Troseddau'n Erbyn yr Unigolyn 1861. Ar 13 Awst, cafodd ddedfryd o 18 mis o garchar wedi'i ohirio am 18 mis.

**Honiad**

Honnir fod y Cyn PC Coppack wedi torri Safonau Ymddygiad Proffesiynol, sef:

- **Ymddygiad Annheilwng:** sef fod ei euogfarn am ymosod wnaeth achosi niwed corfforol gwirioneddol a'r ymddygiad sylfaenol wedi dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu a thanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona.

**Cyngor Cyfreithiol**

Nid oeddwn angen cyngor cyfreithiol penodol ynghylch y mater hwn.

**Casgliadau**

Yn ôl yr hyn sy'n debygol, rwyf yn dod i'r casgliad y gellir profi'r honiad.

Y man cychwyn ydy fod y Cyn PC Coppack wedi'u euogfarnu yn dilyn achos llys troseddol a wrthwynebwyd. Mae euogfarn troseddol yn rhoi prawf pendant fod yr ymddygiad wedi digwydd. Nid wyf felly angen ailedrych ar y ffeithiau a benderfynwyd gan Lys y Goron.

Rwyf yn fodlon fod y Cyn PC Coppack wedi achosi niwed corfforol gwirioneddol, a bod ei ymddygiad wedi arwain at euogfarn troseddol am drosedd ddifrifol o drais.

Mae'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol yn gofyn i swyddogion heddlu ymddwyn mewn modd, boed ar neu oddi ar ddyletswydd, nad yw'n dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu neu danseilio hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae swyddogion heddlu yn cael eu hymddiried hefo grymoedd a chyfrifoldebau sylweddol. Mae disgwyl iddynt arddangos y safonau ymddygiad uchaf yn eu bywydau proffesiynol a phreifat.

Rwyf yn dod i'r casgliad fod swyddog heddlu sydd wedi'u heuogfarnu o ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol wedi ymddwyn mewn ffordd sy'n amlwg yn niweidio enw da'r gwasanaeth heddlu ac yn gallu tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl disgwyl i swyddogion heddlu gynnal y gyfraith a gwarchod pobl eraill rhag niwed. Mae ymddygiad fel hyn yn hollol anghydnaws hefo'r disgwyliadau hynny.

O ganlyniad, torrodd y Cyn PC Coppack Safon Ymddygiad Proffesiynol yn ymwneud hefo Ymddygiad Annheilwng.

**Asesiad Difrifoldeb**

Wrth asesu difrifoldeb, rwyf wedi gorfod ystyried Canllawiau Statudol y Swyddfa Gartref a'r Cod Moeseg.

Mae Paragraff 2.15 o'r Canllawiau'n mynegi'n glir y gellir dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu drwy'r weithred ei hun neu lle mae hyder y cyhoedd mewn plismona'n cael ei danseilio neu canfyddir ei fod yn cael ei danseilio. Mae'n darparu hefyd os ydy swyddog heddlu wedi'u heuogfarnu o drosedd, gall yr euogfarn honno ei hun gyfiawnhau disgyblu. Ym mhob cais, rhaid mynegi'n glir sut mae'r ymddygiad yn dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu.

Rhaid i swyddogion heddlu gynnal y safonau ymddygiad uchaf bob amser ac ystyried sut mae aelodau o'r cyhoedd yn ystyried eu gweithrediadau. Nid ydy'r prawf wedi'i gyfyngu i sylw'r cyfryngau ond mae angen ystyried yr holl amgylchiadau.

Yn yr achos hwn, rwyf yn dod i'r casgliad fod y ffactorau canlynol yn hynod arwyddocaol:

- Arweiniodd yr ymddygiad at euogfarn droseddol am drosedd ddifrifol o drais.
- Dilynodd yr euogfarn achos yn Llys y Goron a heriwyd, gan ddangos fod yr honiadau wedi'u profi'n llawn ger bron rheithgor.
- Denodd y mater sylw'r wasg, gan felly gynyddu'r niwed posibl i hyder y cyhoedd yn Heddlu Gogledd Cymru a phlismona'n ehangach.

- Roedd y troseddu'n ymddygiad troseddol bwriadol ac mae'n dangos ymadawiad arwyddocaol o'r ymddygiad disgwyliedig gan swyddog heddlu.

Mae'n iawn i'r cyhoedd ddisgwyl i swyddogion heddlu warchod pobl, atal trais a chynnal y gyfraith. Mae swyddog sy'n cael ei euogfarnu am ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol yn syrthio ymhell o dan y disgwyliadau hynny. Yn fy marn i, byddai aelod rhesymol a gwybodus o'r cyhoedd yn dod i'r casgliad y byddai ymddygiad o'r fath yn niweidio hyder yn y swyddog ei hun a'r gwasanaeth heddlu ehangach yn ddifrifol.

**Penderfyniad**

Wrth ddod â'r materion hyn at ei gilydd, mae ymddygiad y Cyn PC Coppach yn dangos toriad difrifol o'r Safon Ymddygiad Proffesiynol o ran Ymddygiad Annheilwng.

Rwyf yn fodlon fod ei ymddygiad troseddol, a ddiweddodd mewn euogfarn am ymosod gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, wedi dwyn anfri ar y gwasanaeth heddlu ac wedi tanseilio hyder y cyhoedd mewn plismona. Mae'r ymddygiad yn hollol anghydnaws hefo rôl swyddog heddlu ac hefo gwerthoedd a safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl.

Am y rhesymau hynny, yn ôl yr hyn sy'n debygol, rwyf yn dod i'r casgliad fod yr ymddygiad yn cyfateb i Gamymddwyn Difrifol.

**Y Prif Gwnstabl Amanda Blakeman KPM**
**17 Awst 2026**